# MENTRO

## Mawrth – Mai 2017

Mae Mentro yn fenter sydd wedi ei lunio i helpu paru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n chwilio am gyfle i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiaid sy'n chwilio am ffordd i mewn i ffermio. Mae'n arwain pobl ar y ddwy ochr drwy'r camau allweddol sy'n angenrheidiol i ganfod partner busnes posib. Mae pecyn integredig o hyfforddiant, mentora a chefnogaeth busnes yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i'r rheini sy'n cymryd rhan i'w cynorthwyo i gyflawni eu nod.

**Cam 1 – Trosglwyddo Gwybodaeth Greiddiol**

- Gwefan
- Rhwydwaith Arddangos
- Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol
- Grwpiau Trafod
- Erthyglau
- Agrisgôp
- Academi Amaeth

**Cam 2 – Cefnogaeth wedi'i Deilwra**

- Cymorthfeydd un-i-un
- Mentora
- Paru
- Hyfforddiant
- Gweithdai

**Cam 3 – Sefydlu Menter ar y Cyd**

- Mentora (parhad)
- Gwasanaeth Cynghori (Hyd at €3000 ar gael i bob partneriaeth er mwyn llunio cynllun busnes ac arweiniad cyfreithiol i drafod strwythur arfaethedig y busnes)
- Arweiniad Cyfreithiol


Ers ei lansio, mae **165 unigolyn** wedi mynegi diddordeb yn yr ymgyrch Mentro.
Ar hyn o bryd, mae **143 o gyfranogwyr gweithredol.**
O'r rhain, mae **88 yn 'geiswyr' neu newydd ddyfodiaid** sy'n chwilio am gyfle ac mae **55 yn 'ddarparwyr',** sef ffermwyr neu dirfeddianwyr sy'n darparu cyfle.
Mae **4,000** erw o dir yn cael ei gynnig i Geiswyr ar hyn o bryd

### Sgôr RAG


**Coch: Dan y targed** | **Oren: Bron â chyrraedd y targed** | **Gwyrdd: Ar y trywydd iawn**

**Gwyrdd** – Prosiect a digwyddiadau ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed


Nifer sy'n ymuno â Mentro bob mis




Statws





Y cam nesaf fydd i ymgeisio ar gyfer Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio sy'n darparu gwerth hyd at €3000 o gyngor wedi'i ariannu'n llawn er mwyn cytuno ar strwythur busnes a llunio cynllun ar gyfer eu menter grŵp newydd.





Mae **12 partneriaeth** wedi cael mynediad ar y gwasanaeth cynghori ac mae **4 menter ar y cyd newydd** wedi'u sefydlu.

Cymhareb Ceiswyr a Darparwyr




**Mae 27 pâr wedi cael eu gwneud**

Mae 32% o'r rhai sy'n cymryd rhan wedi canfod partner busnes




Ydych chi'n chwilio am ffordd i gamu i mewn i ffermio? Neu a fyddech chi'n gallu darparu cyfle i newydd ddyfodiad? Cliciwch yma i darganfod mwy.

### Astudiaeth Achos



Mae Arwel a Mary Davies a'u mab, Hywel, yn godro 400 o wartheg Holstein Friesian ar dri daliad, a daethant at dîm Mentro er mwyn eu cynorthwyo i hyrwyddo cyfle newydd i fentro ar y cyd. Yn dilyn sawl ymholiad gan bobl â diddordeb, mae'r teulu bellach wedi derbyn un o'r Ceiswyr am gyfnod prawf o 6 mis. Os byddant yn gweld bod y fenter yn effeithiol ar ddiwedd y cyfnod prawf, gallant gael mynediad at y Gwasanaeth Cyngor am gefnogaeth bellach er mwyn sefydlu cytundeb menter ar y cyd ffurfiol. Darllenwch fwy yma.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

www.llyw.cymru/cyswlltffermio